**Pwyllgor Menter a Dysgu**
**Enterprise and Learning Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu
Gydol Oes
Llywodraeth Cynulliad Cymru

10 Mehefin 2010

Annwyl Leighton

**Yr Agenda Weddnewid ar gyfer Addysg ôl-16**

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn ystyried Agenda Weddnewid Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16. Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn canfod pa gynnydd a wnaed ar draws Cymru o ran integreiddio gwaith ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr eraill a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ddysgwyr a staff.

Rydym yn sylweddoli mai dyddiau cynnar iawn yw'r rhain o ran rhoi'r Agenda Weddnewid ar waith, ond roeddem yn awyddus i gael barn amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ColegauCymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, undebau'r athrawon a John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar y pryd. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol yn y Barri i glywed tystiolaeth gan benaethiaid a myfyrwyr dwy ysgol uwchradd a Phennaeth Coleg y Barri, er mwyn canfod sut oedd y trefniadau newydd yn datblygu.

Gan fod y sefyllfa'n parhau i fod mor ansicr, nid ydym yn cyhoeddi adroddiad ar ein hymchwiliad ar hyn o bryd. Eto, mae nifer o faterion wedi deillio o'n gwaith craffu a hoffem ddod â hwy i'ch sylw chi a'ch cydweithwyr yn y Llywodraeth a chael eich barn arnynt. Rydym felly yn



Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

nodi isod nifer o bwyntiau y gobeithiwn y gallwch fynd i'r afael â hwy o ran datblygu'r Agenda Weddnewid. Ein bwriad yw cyhoeddi'r llythyr hwn, ynghyd â'ch ymateb.

**Materion i Lywodraeth Cynulliad Cymru**

Mae'n deg dweud yr ymddengys bod consensws eang ymhlith tystion o ran croesawu a chefnogi amcanion a dyheadau'r Agenda Weddnewid a'r egwyddor o gydweithio rhwng darparwyr addysg. Fodd bynnag, clywsom rai pryderon am roi'r Agenda ar waith a'i chyflenwi, a hoffem i chi ystyried y rheini.

**Partneriaethau Dysgu**

Clywsom fod y berthynas rhwng colegau, awdurdodau lleol ac ysgolion o ran datblygu'r Agenda Weddnewid, yn anghyson ar draws Cymru, ond ymddengys i ni fod gwahaniaeth amlwg rhwng y sector addysg bellach ac ysgolion.

Ymhlith y sector ysgolion, roedd elfen o anfodlonrwydd ynghylch amser ac amseriad yr ymgynghori a fu ar bolisi gweddnewid y Llywodraeth, ac o ganlyniad mae rhywfaint o ddicter wedi codi mewn rhai ardaloedd. Hefyd clywsom i'r ymgynghori ar gynigion ar lefel leol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, llywodraethwyr ac athrawon fod yn wael mewn rhai mannau.

Ymddengys bod teimlad cyffredinol bod y newid o fewn y sector addysg dros y deng mlynedd diwethaf wedi digwydd mor gyflym fel y bu'n anodd cael canlyniadau pendant cyn unioni strategaethau dilynol yn ddigonol a'u cydweddu â'i gilydd (e.e. Y Wlad sy'n Dysgu, Llwybrau Dysgu 14-19, Bagloriaeth Cymru, Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, Trosglwyddo Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), Ysgolion yr 21ain Ganrif, a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg).

1. **Er ein bod yn sylweddoli nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae'r brif ran o ran diffinio'r berthynas rhwng partneriaid mewn awdurdodau addysg lleol unigol, hoffem wybod sut y gallech ddylanwadu ar gael gwell cefnogaeth gan bawb sydd ynghlwm â'r broses weddnewid, gan gynnwys yr athrawon proffesiynol? Fel y nodwyd yn rhagair Gweinidogol *Y Siwrnai*, gwnaed gwell cynnydd mewn rhai awdurdodau lleol nag eraill. A all Llywodraeth Cymru annog cynnydd yn yr ardaloedd hynny lle mae gweddnewid yn digwydd yn arafach?**

Hefyd, codwyd y mater o sut y gellid cydweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol.



Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

2. **Byddem yn croesawu unrhyw farn arall sydd gennych ers eich ymddangosiad o flaen y Pwyllgor ar 29 Ebrill, ar ddarpariaeth drawsffiniol o'r Agenda Weddnewid.**

**Dysgu Seiliedig ar Waith**

Clywsom fod angen teilwra cysylltiadau rhwng addysg bellach a chyflogwyr ar gyfer amgylchiadau unigol, ond bod y Llwybrau Dysgu 14-19 wedi helpu'n sylweddol i'r perwyl hwn.

Fe fyddwch yn ymwybodol bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *'Adroddiad Dilynol ar Ddysgu sy'n Seiliedig ar Waith'* a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf, wedi dod i'r casgliad nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso gwersi ehangach pwysig o broblemau cynharach gyda Dysgu Seiliedig ar Waith ar draws ei adrannau i gyd.

3. **Credwn efallai bod angen i bartneriaethau dysgu wneud mwy o waith o ran cysylltu â chyflogwyr a hyrwyddo lles Dysgu Seiliedig ar Waith, a byddem yn croesawu eich barn ar sut y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru chwarae rhan o ran hwyluso'r broses hon.**

4. **Hefyd hoffem gael sicrwydd gennych y bydd newidiadau cyfundrefnol yn Llywodraeth Cymru yn galluogi gwahanol adrannau i rannu gwybodaeth yn fwy eang a'ch bod yn rhannu gyda ni, eich ymateb i'r argymhellion yn adroddiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddysgu Seiliedig ar Waith.**

Ers i ni orffen cymryd tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi rhoi gwybod i ni am ddeiseb a gyflwynwyd gan Gweithredu dros Blant syn galw am welliannau yn y ddarpariaeth o Ddysgu Seiliedig ar Waith fel ei fod yn bodloni anghenion pobl ifanc agored i niwed yn well. Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi gofyn i ni godi'r mater hwn gyda chi ac ymddengys i ni mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ni wneud hynny fyddai gofyn am ymateb yn eich atebiad i'r llythyr hwn.

5. **A allwch amlinellu'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol neu sy'n ddigartref, er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau deallus o'r opsiynau hyfforddiant a dysgu sydd ar gael iddynt, a pha dystiolaeth sydd fod y gefnogaeth hon yn gweithio'n effeithiol ar draws Cymru gyfan?**



Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yn sylweddoli bod y grŵp gorchwyl a gorffen ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r materion sy'n effeithio ar fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac edrychwn ymlaen at glywed ei ganfyddiadau. Rydym hefyd yn ymwybodol bod yr arian ar gyfer y maes pwysig hwn wedi cynyddu, er ein bod yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o ba les a ddaw o ganlyniad i hynny. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn yr awgrym a wnaed gan un o'n tystion y dylai'r arian ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ddilyn yr unigolyn drwy gydol ei yrfa addysgol, yn hytrach na chael dyraniad wedi'i ganoli.

6. **Sut y byddwch yn sicrhau bod myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa'n llawn o'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan yr Agenda Weddnewid? Hefyd hoffem wybod pa ddarpariaeth benodol sy'n cael ei gwneud i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc eraill sy'n agored i niwed, fel y rhai hynny sy'n ymadael â gofal.**

## Ariannu

Roedd ariannu'r Agenda Weddnewid yn fater o gryn bryder, ac am amryw o resymau. Mynegwyd pryder am gynaliadwyedd ariannu yn y tymor hwy pan fydd grantiau penodol, er enghraifft, y rhai hynny ar gyfer Rhwydweithiau Dysgu 14-19, yn dod i ben. Hefyd clywsom gwestiynau am gost effeithiolrwydd cydweithio pan all achosi cost ychwanegol, er enghraifft, cynnydd mewn costau teithio ar gyfer disgyblion a staff sy'n gorfod teithio rhwng safleoedd (a'r oruchwyliaeth ychwanegol sydd ynghlwm â hynny), neu offer arbenigol ar gyfer rhai cyrsiau galwedigaethol. Codwyd y mater o effaith y lleihad mewn ariannu ar hyfforddiant mewn swydd ar y cyd rhwng athrawon a darlithwyr.

7. **Beth yw eich ymrwymiadau ariannu tymor hir a thymor canolig ar gyfer yr Agenda Weddnewid a sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfeirio'i harian yn fwy penodol at annog a chefnogi partneriaethau?**

## Cynghorau Sgiliau Sector

Er bod rhai Cynghorau Sgiliau Sector yn gweithio'n dda a chafwyd cysylltiad cadarnhaol o fewn Rhwydweithiau Dysgu 14-19 gan gynnwys cyfraniadau tuag at ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i'w sector, clywsom fod y darlun yn anghyson ar draws Cymru. Gall hyn fod oherwydd diffyg adnoddau neu heriau daearyddol.



Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

8. **A allwch amlinellu sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gallu a pherfformiad mewn rhai cynghorau sgiliau sector, ac yn arbennig sut y gall busnesau a chyflogwyr llai gymryd rhan yn yr Agenda Weddnewid?**

**Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

Clywsom fod awdurdodau lleol sydd â phoblogaeth wasgaredig neu brin wedi profi heriau ychwanegol o ran y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac wedi ei chael yn arbennig o anodd i ymateb i'r Agenda Weddnewid. Yn wir, cydnabu Jane Hutt AC, y cyn Weinidog, y byddai rhai awdurdodau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael anhawster i ateb y gofyniad i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhellach yng nghyd-destun y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).

Rydym yn rhagweld y bydd gan y tri Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog rôl allweddol i'w chwarae yn y maes hwn, er y clywyd rhywfaint o bryder gan dystion na ddylai'r fforymau gynyddu costau rheoli a threfnu er anfantais dysgu ac addysgu, na dyblygu gwaith pwyllgorau a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli.

9. **Pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau na fydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg deithio ymhellach ac na fydd ganddynt lai o ddewis na disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg?**

Hefyd clywsom fod yr Agenda Weddnewid, wrth ehangu'r dewis o gyrsiau galwedigaethol, yn creu heriau i ysgolion a cholegau ddarparu'r cyrsiau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

10. **Sut y byddwch yn sicrhau bod y staff dysgu angenrheidiol sydd wedi cymhwyso ac wedi'u hyfforddi ar gael i ddarparu'r nifer a'r amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol sy'n ofynnol yn statudol drwy gyfrwng y Gymraeg?**

**Chweched Dosbarth Ysgolion**

Derbyniwyd tystiolaeth anecdotaidd y gall yr Agenda Weddnewid gael effaith negyddol ar chweched dosbarth ysgolion, ac roedd cyhuddiadau bod Llywodraeth Cymru'n gynnil wthio agwedd drydyddol.

Mynegwyd pryder hefyd am y perygl o ddiswyddo athrawon o ganlyniad i newidiadau strwythurol i chweched dosbarth, y


Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

posibilrwydd o golli athrawon profiadol o ysgolion, morâl isel ymhlith staff dysgu a'r effaith y gallai hyn ei gael ar safonau o fewn ysgolion.

11. **Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran ymgorffori cynllunio'r gweithlu i'r Agenda Weddnewid ac o ran ymgynghori â'r athrawon proffesiynol, a beth fyddai eich ymateb i'r awgrym y dylai'r holl gynlluniau gweddnewid gynnwys asesiad effaith ar weithlu'r ysgol a'r / neu'r coleg?**

Hefyd clywsom rai pryderon bod darlithwyr addysg bellach yn gorfod addasu i ddysgu myfyrwyr iau, a sut y gellid ariannu'r hyfforddiant trosiannol hwnnw.

**12. Er ein bod yn sylweddoli bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o ran hyfforddi neu ailhyfforddi darlithwyr addysg bellach i ddysgu disgyblion oedran ysgol, sut y caiff hyn ei gyflawni yn gyffredinol ac a fydd arian penodol ar gael i'r diben hwn?**

**Anogwyr Dysgu**

Er bod yr egwyddor o anogwyr dysgu yn cael ei groesawu, awgrymwyd gan rhai tystion y byddai wedi bod yn well defnydd o amser ac arian i gael cytundeb am hawliau disgyblion i gyngor ac yna mesur perfformiad ysgol o ran ateb yr hawl hwnnw.

Hefyd derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth bod y cysyniad gwreiddiol o'r Anogwr Dysgu yn rhoi sesiynau un-i-un wedi'u teilwra ar gyfer anghenion y bobl ifanc hynny sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth, wedi'i wanhau yn ystod y broses o'i roi ar waith. Y rhesymau a roddwyd am hyn oedd diffyg arian cynaliadwy, yr anawsterau o ran recriwtio Anogwyr Dysgu - yn enwedig Anogwyr Dysgu sy'n siarad Cymraeg - a bodolaeth cymorth bugeiliol a threfniadau mentora sydd wedi'u sefydlu mewn llawer o ysgolion.

**13. A allwch ymateb i'r pryder y dylai ariannu swyddi ychwanegol fel anogwyr dysgu, ychwanegu gwerth ac nid tynnu oddi ar safonau dysgu mewn ysgolion uwchradd, ac a allwch egluro a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi Anogwyr Dysgu mewn ysgolion neu a yw hyn wedi dod yn rôl fwy generig y disgwyliwch iddi gael ei gwneud gan y staff dysgu a staff nad ydynt yn dysgu?**



Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

**Dewisiadau Dysgwyr**

Drwy gydol ein hymchwiliad, roedd cefnogaeth eang i ganolbwyntio mwy ar y dysgwr unigol, ar godi safonau, ar ehangu cyfranogaeth a gwella cyflogadwyedd – yn hytrach na chanolbwyntio ar strwythurau a phrosesau addysgol. Eto, mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu bod angen gwneud mwy ar bob lefel (rhieni, athrawon, cynghorwyr gyrfa) i hyrwyddo parch cydradd rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol.

14. **Wrth weddnewid addysg ôl-16, faint o bwyslais ydych chi'n ei roi ar ddewis myfyrwyr, yn ychwanegol at hawliau statudol y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)? Faint o ystyriaeth sy'n cael ei roi i farn dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr, nid yn unig am y dewis o gyrsiau ond hefyd am y math o sefydliad y maent yn dymuno dysgu ynddo a sut y gellir cael mwy o gydraddoldeb rhwng y gwerth a roddir ar addysg academaidd ac addysg alwedigaethol?**

Yn olaf, cododd llawer o faterion o'r dystiolaeth yn ymwneud â phobl ifanc wedi'u dadrithio. Fe fyddwch yn ymwybodol y bydd ein hymchwiliad nesaf yn ymchwilio i effeithiolrwydd strategaethau a darpariaethau ar gyfer y bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac edrychwn ymlaen at sesiwn graffu gyda chi ar y materion hynny ar 24 Mehefin.

Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed eich barn a'ch sylwadau ar yr 14 pwynt a godwyd uchod, a hoffem ddiolch i chi am eich cymorth parhaus gyda'r ymchwiliad hwn .

Yn gywir

**Gareth Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**



Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk